



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

Adroddiad yr Adolygiad Thematig o Wasanaethau Offthalmoleg AGIC 2015-2016

“Mae Grŵp Cydweithredol Gofal Llygaid BIPABM yn cydnabod y canfyddiadau yn adroddiad AGIC ac yn credu eu bod yn berthnasol ac yn deg”

	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
1	Materion sy'n ymwneud â'r broses atgyfeirio cleifion (Atgyfeiriadau cleifion - y Broses Atgyfeirio)	Rhaid i'r holl bartïon (Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio gan Offthalmoleg a'r Byrddau Iechyd) weithio gyda'i gilydd tuag at gyflwyno system electronig ar gyfer trosglwyddo cofnodion cleifion/atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol o	<ul style="list-style-type: none">Mae angen gwneud cryn dipyn o gynnydd cyn y bydd cymorth gwybodeg i ofal llygaid yn addas i'r gwaith ar draws gofal sylfaenol ac eilaiddMae BIPABM yn gweithio gyda Bwrdd Llywio Gofal Llygaid Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a rhanddeiliaid eraill i:<ul style="list-style-type: none">-alluogi gwaith cyfredol tuag at atgyfeiriadau electronig o Ofal Sylfaenol-gweithio tuag at gynyddu'r seilwaith Technoleg a Rheoli Gwybodaeth mewn	Targed LLC Ebrill 2018		Cyfarfod nesaf yr ECCG Mai 17	Cadeirydd Is-grŵp TG ECCG y Bwrdd Iechyd



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

		<p>optometryddion i wasanaethau gofal eilaidd.</p>	<p>gofal sylfaenol ac eilaidd er mwyn datblygu system e-gyfeirio a chofnod cleifion electronig (EPR). Bydd hyn yn gwella gwybodaeth glinigol ac mae mynediad at ganlyniadau lluniau / archwiliadau a gohebiaeth - yn cyfrannu at loywi'r templed E-atgyfeirio</p> <p>Optometreg newydd</p> <p>-gweithredu mewn is-grwpiau TG o'r Bwrdd Llywio Gofal Llygaid.</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae BIPABM wedi sefydlu is-grŵp TG bwrdd iechyd i gytuno ar amcanion strategol ac i roi cynlluniau ar waith i ddarparu gwasanaethau• Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n cyflwyno system graddio atgyfeiriadau electronig ar gyfer pob atgyfeiriad gan feddygon teulu			
--	--	--	--	--	--	--



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	Canfyddiadau'r Arolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
2	Roedd Adolygiad Offthalmolig Cenedlaethol y Cynghorau Iechyd Cymuned yn dangos bod rhai cleifion yn teimlo nad oeddent wedi derbyn digon o wybodaeth ynglŷn â'r rheswm dros eu	Dylai Byrddau Iechyd trwy Grwpiau Gofal Llygaid Lleol weithio gydag optometryddion i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth ddigonol a hygyrch ynglŷn â'r rheswm dros gael eu hatgyfeirio i wasanaeth gofal eilaidd, ac i sicrhau bod pob claf yn	<ul style="list-style-type: none">Rhannwyd y wybodaeth hon â'r ymarferwyr gofal sylfaenol trwy gyfrwng cyfarfodydd y grŵp clwstwr ar ôl i adroddiad adolygu'r Cyngor Iechyd Cymuned gael ei rannu â'r Byrddau Iechyd ym mis Hydref 2016Mae BIPABM yn ystyriol o'r pwyntiau yn y llwybrau clinigol cytunedig o ran darparu gwybodaeth ffurfiol i gleifion (gan gynnwys yn ysgrifenedig). Mae'r wybodaeth ysgrifenedig ragosodedig yn llyfrynnau a thaflenni'r RNIB ac RCOphth ac mae dolenni i gysylltu â ffynonellau cyfatebol y wybodaeth hon ar gael ar y	ECCG Tachwed d 17		Cyfarfod nesaf yr ECCG Mai 17	Cynghorydd Optometreg



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	hatgyfeiriad. (Atgyfeiriadau cleifion - y Broses Atgyfeirio)	teimlo y gwrandewir arno a'i fod yn cael ei gynnwys yn y penderfyniadau a wneir ynglŷn â'i ofal.	Rhyngrwyd ac mewn amrywiaeth o daflenni mewnol.				
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
3	Ansawdd yr atgyfeiriadau sy'n cael eu hanfon at y llwybr mynediad cyflym. (Atgyfeiriadau Cleifion - Ansawdd Atgyfeiriadau)	a) Dylai byrddau iechyd ystyried dulliau ar gyfer mireinio atgyfeiriadau i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at y llwybr gofal mwyaf priodol mewn modd amserol ac effeithiol, gan osgoi ymweliadau	<ul style="list-style-type: none"> Yn dilyn penodiad diweddar y cynghorydd Optometrig, mae cynlluniau ar waith i weithio gyda'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweinyddol ac arweinwyr eraill ar lwybrau clinigol i nodi problemau ansawdd a datblygu hyfforddiant a mecanweithiau priodol i ddatrys y problemau hyn Mae Offthalmolegwyr Ymgynghorol BIPABM wedi cyflwyno digwyddiadau hyfforddi Canolfan Addysg Optometrig Ôl- 	Cwblhawyd Cwblhawyd		Cyfarfod nesaf yr ECCG Mai 17	Grŵp Gwasanaeth Dirprwyon a Rheolwyr Gwasanaeth a Chynghorwyr Optometreg



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	<p>diangen.</p> <p>b) Dylai byrddau iechyd ystyried darparu digwyddiadau/deunyddiau addysgol i godi ymwybyddiaeth o lwybrau atgyfeirio lleol ymhlith optometryddion a staff perthnasol eraill.</p> <p>c) Dylai byrddau iechyd sicrhau y rhoddir adborth i optometryddion pan ofynnir amdano, ynglŷn ag ansawdd yr atgyfeiriadau a anfonir, i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu.</p>	<p>raddedig Cymru (WOPEC) i gynorthwyo dysgu cydweithredol</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae llwybrau clinigol a gwybodaeth ganllaw ar gael i Gyfarwyddwyr Meddygol Gweinyddol, Glawcoma a Gofal dirybudd trwy borth adnoddau'r meddygon teulu ar fewnrwyd BIPABM, a dylai optometryddion allu cael mynediad ati ar ôl cael eu hychwanegu at rwydwaith y GIG. Mae gwaith ar droed i lanlwytho mwy o lwybrau ar fewnrwyd BIPABM• Rheolwyr y Gyfarwyddiaeth i nodi ffyrdd o gasglu data 'Dychwelyd at Atgyfeiriwr' cyn atgyfeirio'n electronig i fonitro ac archwilio atgyfeiriadau• Mae'r is-grŵp Cataract wedi cytuno i ddatblygu 'Ffurflen Mireinio Atgyfeiriadau' ar gyfer atgyfeiriadau cataract. Bydd pob atgyfeiriad nad yw'n bodloni meini prawf atgyfeirio Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru yn cael ei dychwelyd at yr	<p>Cwblhawyd</p> <p>Medi 2017</p> <p>Gorffennaf 2017</p>			
--	--	--	--	--	--	--



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

			<p>atgyfeiriwr gan nodi bod y wybodaeth yn anghyflawn. Cynlluniau ar droed i'w addasu ar gyfer llwybrau clinigol eraill ar ôl ei weithredu'n llwyddiannus</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'r is-grŵp Cataract wedi cytuno i ddatblygu protocol uwchgyfeirio gyda chynghorydd Optometreg ar broblemau sy'n ymwneud ag ansawdd atgyfeiriadau, ymhlith pethau eraill. Cynlluniau ar droed i'w addasu ar gyfer llwybrau clinigol eraill os yw'n llwyddiannus• Mae'r Gwasanaethau Offthalmoleg wedi dechrau gweithio gyda chydweithwyr Gwybodeg ar gynlluniau i gyflwyno system raddio Electronig (WPRS). Fodd bynnag, ni fydd yn cael ei rhoi ar waith yn llawn tan fydd 'Cam 1' y system E-atgyfeirio Optometreg wedi'i gyflwyno• Bydd cyflwyno systemau atgyfeirio a graddio electronig yn hwyluso'r broses adborth i Optometryddion ar broblemau	<p>Gorffennaf 2017</p> <p>Yn ddibynnol ar gamau gweithredu LLC</p> <p>Fel yr</p>		
--	--	--	--	--	--	--



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

			sy'n ymwneud ag ansawdd atgyfeiriadau	uchod.			
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
4	Diffyg adborth i optometryddion ar ôl atgyfeirio a rhyddhau cleifion. (Atgyfeiriadau Cleifion - Cyfathrebu yn Dilyn Atgyfeiriadau) (Rhyddhau Cleifion - Ansawdd Gwybodaeth)	a) Dylai byrddau iechyd sicrhau bod adborth ynglŷn â'r diagnosis a'r cynllun triniaeth yn cael ei roi i'r optometrydd a wnaeth yr atgyfeiriad yn dilyn pob atgyfeiriad a wneir i'r gwasanaeth, gan gynnwys p'un a wnaed atgyfeiriad i wasanaeth golwg gwan neu beidio. b) Rhaid i optometryddion ddefnyddio'r ffurflen	<ul style="list-style-type: none">Mae clinigwyr BIPABM yn ildio i lwybrau, canllawiau a phrosesau cytunedig a nodir gan Grŵp Cyngori Arbenigol yr Offthalmegwyr (OSAG) ac WOPECMae llythyrau clinigol ac adolygiadau'r Ganolfan Ddiagnostig a Thriniaeth Offthalmoleg eisoes yn cael eu hanfon at yr Optometrydd sy'n atgyfeirio ar ôl ymweliadau dilynol â'r Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty fel y bo'n briodol, gyda chaniatâd y claf; mae hyn yn cynnwys clinigau rhithwir. Mae'r uchod wedi'u cytuno â'r Bwrdd Llywio Cyffredinol mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr o OptometregPan fydd yr EPR (y system atgyfeirio 2 ffordd) ar waith, rhagwelir y bydd	Cwblhawyd			Arweinwyr Clinigol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	<p>atgyfeirio briodol a sicrhau bod eu henw a chyfeiriad eu practis yn glir ac yn ddarllenadwy.</p> <p>c) Rhaid i fyrddau iechyd/Llywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ar waith i gynyddu'r wybodaeth sydd ar gael i optometryddion mewn perthynas â chleifion sydd wedi cael eu rhyddhau o ofal eilaidd.</p>	<p>optometryddion yn cael llythyrau orthopteg electronig ar ôl cyfnodau mewn clinig. Nid oes digon o adnoddau clerigol ar gael ar hyn o bryd i bob cyfnod clinigol orthopteg gael ei adrodd ar fformat papur ac wedi'i deipio</p> <ul style="list-style-type: none">• Dylai BIPABM greu protocol rhwng gofal eilaidd a sylfaenol trwy Gynghorydd Optometreg er mwyn ymdrin ag unrhyw broblemau adborth• Dylai AGIC nodi nad yw cleifion bob amser yn dychwelyd at yr optometrydd a'u hatgyfeiriodd. Mae dilyniant gofal yn broblem ac mae'n dibynnu ar ddewis cleifion• Mae crynodebau rhyddhau cleifion Cataract BIPABM wedi'u haddasu a'u rhoi ar waith i ddarparu rhagor o wybodaeth i Optometryddion am ganlyniadau disgwylidig a chyd forbidrwydd			
--	--	--	--	--	--



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
5	Mae'r cynghorau cymuned iechyd yn adrodd am bryderon ynglŷn â diffyg gwybodaeth cyn triniaeth mewn gofal eilaidd. (Atgyfeiriadau Cleifion - Cyfathrebu yn Dilyn Atgyfeiriadau)	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu cyflwr a'u cynllun triniaeth arfaethedig, cyn unrhyw archwiliad neu driniaeth. Dylai hyn gydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ynglŷn â chydysniad gwybodus.	<ul style="list-style-type: none">• Cafodd BIPABM adborth cadarnhaol yn adroddiad y Cyngor Iechyd Cymuned fod Cleifion yn teimlo bod gweithwyr iechyd proffesiynol mewn Gofal Eilaidd yn gwranddo arnynt a'u bod yn teimlo yn rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal, a chafwyd 100% o adborth cadarnhaol fod Cleifion yn credu bod eu cyflyrau yn cael eu hegluro'n llawn ac mewn modd dealladwy.• Fodd bynnag, yn dilyn adroddiad y Cyngor Iechyd Cymuned, mae BIPABM wedi adolygu ac addasu ein Taflen Wybodaeth i Gleifion ar Lawdriniaeth Cataract i gynnwys rhagor o wybodaeth i gleifion am y gwelliant y dylent ei weld yn eu golwg, cyfraddau cymhlethdodau'r gwasanaeth llygaid mewn ysbyty a chyfraddau'r canlyniadau ansawdd	Cwblhawyd			



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

			<ul style="list-style-type: none"> Mae gan BIPABM Swyddogion Cyswllt Clinigau Llygaid ar bob un o'r 3 safle. Mae Swyddogion Cyswllt Clinigau Llygaid yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i ddarparu gwybodaeth i gleifion clinigau llygaid am gyflwr/cyflyrau eu llygaid a'r dewisiadau o ran triniaethau. Nid yw hyn yn cynnwys cyngor wrth reswm. Mae gan Swyddogion Cyswllt Clinigau Llygaid amser i sicrhau bod cleifion wedi deall yr hyn a ddywedwyd wrthynt. 				
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
6	Pryderon ynglŷn â monitro gosodedig ar gyfer cleifion sydd angen gwaith dilynol. (Amserlenni Triniaeth - Targedau)	a) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y gall Systemau Gweinyddu Cleifion ddarparu data ynglŷn â'r cyfnod cyn yr apwyntiad dilynol a argymhellir gan glinigwyr, a'r cyfnod	<ul style="list-style-type: none"> Mae clinigwyr BIPABM yn cyfeirio at lwybrau, canllawiau a phrosesau a gytunwyd yn genedlaethol Er mwyn deall a dechrau datrys y broblem benodol hon, mae BIPABM wedi gwneud gwaith i fesur y bwlch sydd gennym rhwng galw a chapasiti. Mae gofynion gwasanaeth ychwanegol i lenwi 	Cam Gweithredu LIC Cwblhawyd ac mae systemau ar waith i		Cyfarfod nesaf yr ECCG Mai 17	Rheolwr Darparu Gofal wedi'i Gynllunio a Gofal Canser a Chadeirydd Grŵp Prosiect



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	<p>cyn yr apwyntiad dilynol mewn gwirionedd, yn ôl llwybr gofal.</p> <p>b) Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion gofal mwyaf yn gyntaf (boed hynny'n gleifion newydd neu apwyntiadau dilynol), gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau sydd ar gael.</p> <p>c) Rhaid i dimau clinigol ddogfennu'r drefn ddilynol a</p>	<p>ein bylchau gweithgareddau yng Nghynllun Cynaliadwyedd y Gwasanaethau Offthalmoleg, sydd gan dîm Gweithredol BIPABM ar hyn o bryd</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae model Blaenoriaethu Clinigol wedi'i roi ar waith yn rhan orllewinol BIPABM, h.y. llwybrau i mewn i Ysbyty Singleton.• Mae'r Gwasanaethau Gwybodeg ac Offthalmoleg wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu 'Rhestr Aros wedi'i Sgorio' er mwyn galluogi'r bwrdd iechyd i adrodd amrywiadau i Lywodraeth Cymru rhwng y cyfnodau rhwng apwyntiadau dilynol a argymhellir ar sail feddygol a'r cyfnodau rhwng apwyntiadau dilynol mewn gwirionedd• Dylid defnyddio system flaenoriaethu clinigol P123 ar gyfer cleifion a reolir gan Singleton mewn modd sy'n sicrhau bod gofal yn cael ei roi i'r rhai sydd â'r anghenion gofal mwyaf yn gyntaf. Caiff	<p>hwyluso'r gwaith o fonitro'r broblem hon yn barhaus Cwblhaw yd</p> <p>Ar waith</p> <p>Cwblhaw yd</p>		<p>Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio Offthalmeg BIPABM</p>
--	--	---	---	--	---



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

		<p>ddewisir ar gyfer pob achos yn glir. Dylid gwneud hyn yn gyson yn unol â phrotocolau y cytunir arnynt. Dylid hysbysu'r claf o unrhyw newidiadau i'r cynllun.</p>	<p>cleifion a reolir gan Ysbyty Tywysoges Cymru eu codio â chyflyrau clinigol a'u rheoli gan restrï arbenigol a adolygir bob dydd/wythnos er mwyn sicrhau bod amserau aros mor fyr â phosibl a bod achosion yn cael eu gweld yn ôl yr angen (e.e. cod glawcoma brys)</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae BIPABM yn ystyriol o waith cyfredol sydd ar droed gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen LLC i argymhell model blaenoriaethu Clinigol P123 i Ysgrifennydd y Cabinet fel y mesur newydd i'w ddefnyddio wrth lywodraethu mynediad at ofal mewn amgylchiadau pan fo angen dyrannu blaenoriaeth ar sail glinigol, gan ystyried y diffyg gallu perthnasol• Bydd BIPABM yn aros am drafodaeth a chanllawiau cenedlaethol gan Fwrdd Gofal Offthalmig wedi'i Gynllunio Cymru (WOPCB)	<p>Yn aros am Ganllawiau gan Lywodraeth Cymru</p>		
--	--	---	---	---	--	--



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
7	Diffyg adrodd am ddigwyddiadau mewn perthynas â pholisi niwed i gleifion Llywodraeth Cymru. (Adrodd am Ddigwyddiadau)	a) Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod mecanweithiau ar waith i adolygu adroddiadau am ddigwyddiadau ac i nodi patrymau posibl sy'n rhoi rhybudd cynnar am fethiannau system mwy difrifol. b) Pan fydd digwyddiadau, rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau, yn unol â pholisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â niwed i gleifion, bod y rhain yn cael eu hadrodd fel	<ul style="list-style-type: none">Mae staff BIPABM ildio i bolisiau a gweithdrefnau a gytunir yn genedlaetholMae prosesau a gweithdrefnau a mecanweithiau electronig ar waith ar lefelau gweithredol a chorfforaethol o fewn BIPABM i hwyluso'r gwaith o adrodd digwyddiadauMae gofal sylfaenol yn dilyn ei broses a'i weithdrefnau ei hun o ran adrodd digwyddiadau	Tachwed d 17		Cyfarfod nesaf yr ECCG Mai 17	Rheolwr Gofal Sylfaenol Arweinwyr Clinigol a Chyfarwyddwyr Meddygol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

		Digwyddiadau Andwyol Difrifol.					
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
8	Diffyg capasiti/breude r gwasanaethau oherwydd gorddibyniaeth ar feddygon ymgyngorol. Materion ynglŷn â diffyg capasiti, recriwtio a diffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau. (Triniaeth - Capasiti)	a) Rhaid i fyrddau iechyd fod yn weithredol wrth ddatblygu cynlluniau gweithlu sydd i fod i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yng nghapasiti cyfredol y gwasanaeth a'r cyfleusterau sydd ar gael i liniaru'r risg i ofal cleifion. Dylai'r cynlluniau hyn geisio cynyddu capasiti i'r eithaf trwy wneud y defnydd mwyaf effeithiol o sgiliau staff meddygol a	<ul style="list-style-type: none">• Defnyddio camera ongl Optos Widefield er mwyn gallu adolygu cleifion diabetig/DMO mewn modd effeithlon a rhithwir• Mae'r Gwasanaethau Offthalmoleg wedi cyflwyno Cynllun Cynaliadwyedd i fynd i'r afael â'r bwlch galw/capasiti i Dîm Gweithredol BIPABM i'w ystyried a'i gadarnhau• Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys buddsoddi mewn mwy o ymarferwyr anfeddygol a hyfforddiant, yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus• Mae'r gwasanaethau Offthalmoleg wrthi'n ceisio sicrhau mwy o ystafelloedd glân a gweithfannau wedi'u lleoli ar y cyd, ond	Mae cynlluniau cynaliadw yedd wedi'u cyflwyno		Cyfarfod nesaf yr ECCG Mai 17	Rheolwr Darparu Gofal wedi'i Gynllunio a Gofal Canser sydd hefyd yn Gadeirydd Grŵp Prosiect Rhaglen Gofal Offthalmig wedi'i Gynllunio BIPABM



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	<p>staff anfeddygol sydd ar gael, yn ogystal â'r lle/cyfleusterau sydd ar gael.</p> <p>b) Rhaid i fyrddau iechyd ystyried ffyrdd o weithio'n agosach gyda chydweithwyr ym maes gofal sylfaenol. Er enghraifft, trwy ddarparu offer (a hyfforddiant) ar gyfer practisau optometreg i ganiatáu iddynt fireinio atgyfeiriadau a/neu asesu cleifion sefydlog. Mae angen gwneud hyn mewn modd strategol sydd</p>	<p>mae wedi wynebu heriau wrth wneud hyn, sydd wedi oedi'r cynnydd yn y maes hwn</p> <ul style="list-style-type: none">• Pan fydd system EPR briodol wedi'i sefydlu ac ystafell lân newydd wedi'i sicrhau a'i pharatoi, bydd yr holl system mewn safle i symud i fodel darparu gofal a oruchwylir gan feddygon ymgynghorol, yn hytrach na model sy'n darparu gofal uniongyrchol gan feddyg ac ymgynghorydd				
--	---	--	--	--	--	--



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

		wedi'i gynllunio, o dan reolaeth y bwrdd iechyd.					
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
9	Dylai byrddau iechyd ddysgu o'r profiadau yn dilyn y cynnydd a wnaed mewn mannau eraill. (Triniaeth - Mentrau i wella Capasiti)	<p>a) Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau eu bod yn llawn ymgysylltu â Bwrdd Gofal Offthalmoleg wedi'i Gynllunio i gynorthwyo yn y broses o rannu dysg â staff mewn ardaloedd eraill.</p> <p>b) Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen datblygu mwy o ddulliau gweithredu i annog rhannu dysg rhwng byrddau iechyd yn</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae Cadeirydd WOPCB yn aelod o ECCG BIPABM yn rhinwedd ei swydd fel arweinydd glawcoma yr isadran Orllewinol. Yn ogystal â hyn, mae arweinwyr rheoli ac orthopteg yn mynd i'r ddau fforwm. Mae ECCG BIPABM yn nodi ceisiadau gan WOPCB a bydd yn dangos ei arfer da ei hun, fel yr amlinellir isod, er mwyn rhannu ac ystyried gwybodaeth debyg a gyflwynir gan sefydliadau eraill Mae llwybrau glawcoma ledled BIPABM yn caniatáu i atgyfeiriadau gael eu brysennu'n briodol. Yn Ysbyty Tywysoges Cymru, mae orthoptyddion yn gweld pob atgyfeiriad newydd ac yn cael gwared ar gleifion sy'n addas ar gyfer llwybrau heb 	Tachwed d 17		Cyfarfod nesaf yr ECCG Mai 17	Rheolwr Darparu Gofal wedi'i Gynllunio a Gofal Canser sydd hefyd yn Gadeirydd Grŵp Prosiect Rhaglen Gofal Offthalmig wedi'i Gynllunio



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

		<p>ogystal â dullau mwy integredig i fynd i'r afael a themâu/problemau cyffredin sy'n cael eu profi ledled Cymru. Er enghraifft, cyflwyno chwistrelliadau gan staff anfeddygol.</p>	<p>feddyg ymgynghorol. Yn ysbytai Castell-nedd Port Talbot a Singleton, caiff y mwyafrif o atgyfeiriadau glawcoma newydd eu brysbennu i glinigau Canolfan Ddiagnostig a Thriniaeth Offthalmolegwyr a arweinir gan Nyrsys, tra bod rhai (gan gynnwys atgyfeiriadau eilaidd a thrydyddol) yn cael eu cyfeirio at glinigau glawcoma isarbenigol a arweinir gan feddygon ymgynghorol. Mae'r grŵp olaf hwn yn cynnwys atgyfeiriadau ar gyfer ongl gaeedig posibl ar sail 'gweld, addysgu a thrin'</p> <ul style="list-style-type: none">• Chwistrellwyr anfeddygol sy'n gyfrifol am roi'r mwyafrif o'r triniaethau bellach yn Abertawe, ac mae nifer o rai eraill dan hyfforddiant• Clinigau adolygu Cyfarwyddwyr Meddygol Gweinyddol wedi'u sefydlu yn y gymuned ers mis Rhagfyr 2016			
--	--	---	--	--	--	--



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
10	Pwysigrwydd rôl y Cyfarwyddwr Meddygol Gweinyddol Cydlynol. (Staff Cymorth Gwasanaeth - Cydlynwyr AMD)	Oherwydd gofynion y rôl a phwysigrwydd sicrhau bod cydlynnydd AMD ar gael yn gyson, dylai'r Byrddau Iechyd ystyried a yw un cydlynnydd AMD yn ddigon ar gyfer y gwasanaeth gofal llygaid.	<ul style="list-style-type: none"> Mae cydlynnydd AMD pwrpasol yn ysbyty Singleton Mae BIPABM yn ystyried buddsoddi mewn cydlynnydd arall i gynorthwyo yn y Gwasanaethau AMD a DMO cynyddol, ac mae hyn yn rhan o'r Cynllun Cynaliadwyedd Offthalmoleg a gyflwynwyd 	Cynllun Cynaliadwyedd wedi'i gyflwyno		Cyfarfod nesaf yr ECCG Mai 17	Rheolwyr Gwasanaeth
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
11	Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid - diffyg defnydd o'r rôl	Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o	<ul style="list-style-type: none"> Mae Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid yn darparu gwasanaeth ar bob un o 3 safle'r Bwrdd Iechyd. Amser llawn yn Singleton lle mae'r clinig AMD gwlyb. Mae'r staff i 	Tachwedd 17		Cyfarfod nesaf yr ECCG Mai 17	Rheolwyr Gwasanaethau a Rheolwyr



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	gan staff eraill. (Staff Cymorth Gwasanaeth - Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid)	argaeledd y gwasanaeth lleol gan swyddogion cyswllt gofal llygaid. Sicrhau bod gan gleifion fynediad at gyngor a chymorth perthnasol.	<p>gyd yn ymwybodol o'u rolau</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae BIPABM yn cyfrannu'n ariannol tuag at wasanaeth y Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid (20 y cant) o'r flwyddyn ariannol 2017-18 ymlaen, gyda'r nod o gefnogi gwaith i integreiddio a chydgysylltu'r gwasanaeth yn well ledled safleoedd BIPABM. Yn ogystal â hyn, mae gwaith prosiect diweddar rhwng orthopteg, offthalmolegwyr pediatreg a Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ymhlith y gweithwyr iechyd proffesiynol penodol hyn, gan arwain at wneud mwy o ddefnydd o'r Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid 				Gwasanaeth au'r Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid, RNIB
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
12	Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid - Diffyg	Dylai byrddau iechyd sicrhau bod swyddog cyswllt gofal llygaid	<ul style="list-style-type: none"> Caiff dau Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid eu cyflogi gan BIPABM 	Cwblhaw yd			Rheolwyr Gwasanaeth au a



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	Capasiti/Argael edd. (Staff Cymorth Gwasanaeth - Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid)	ar gael yn eu clinigau gofal llygaid ar bob adeg, a dylid ystyried a yw un swyddog cyswllt gofal llygaid yn ddigon ar gyfer y gwasanaeth gofal llygaid.	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd orau o ddefnyddio'r swydd ar gyfnodau gwyliau blynyddol ac ati • Mae BIPABM yn cyfrannu'n ariannol tuag at wasanaeth y Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid (20 y cant) o'r flwyddyn ariannol 2017-18 ymlaen, gyda'r nod o gefnogi gwaith i integreiddio a chydgyssylltu'r gwasanaeth yn well ledled safleoedd BIPABM, gan gynnwys mapio darpariaeth Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid yn fwy uniongyrchol at y galw, pan fo angen. 				Rheolwyr Gwasanaeth au'r Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid, RNIB
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
13	Pryderon a leisiwyd gan staff mewn perthynas â diffyg prosesau ar waith i gyflwyno	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod dulliau ar waith i ganiatáu i staff leisio unrhyw bryderon/awgrymiad au a allai fod	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan BIPABM amrywiaeth o fecanweithiau y gall staff eu defnyddio i leisio pryderon a/neu awgrymiadau ac ati; <ul style="list-style-type: none"> • Trafodaeth uniongyrchol â'r rheolwr llinell • Cyfarfod busnes offthalmoleg lleol lle 	Cwblhaw yd			Grŵp Gwasanaeth a Rheolwyr Gwasanaeth



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	sylwadau/awgr ymiadau i reolwyr byrddau iechyd. (Staff Cymorth Gwasanaeth - Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid)	ganddynt ynglŷn â gwella darpariaeth gwasanaeth. Dylai'r broses hon sicrhau bod adborth yn cael ei roi i unigolion yn rheolaidd.	<p>y mae pob aelod o'r staff yn cymryd rhan</p> <ul style="list-style-type: none">• Briffio tîm uned a reolir• Polisi drws agored uwch-reolwyr <ul style="list-style-type: none">• Rhan o waith Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid yw cynorthwyo cleifion i leisio pryderon ac i fynd i'r afael â'r rhain yn anffurfiol pan fo'n bosibl; Mae'r Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid hefyd yn ymddwyn fel eiriolwyr neu ffynhonnell o gymorth i gleifion sy'n gwneud cwyn trwy lwybr mwy ffurfiol. Mae gan Brifysgol Abertawe Bro Morgannwg Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid yn gweithio yn y tri phrif glinig llygaid				
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
14	Mae angen rhagor o eglurder ynglŷn â rôl yr	I wneud defnydd mwy effeithiol o optometryddion, rhaid i Lywodraeth	<ul style="list-style-type: none">• Mae BIPABM yn ymwybodol o gamau gweithredu LIC i ddatblygu rôl Optometryddion ac yn aros am ganllawiau a fframwaith ategol	Yn aros am ganllawiau gan			Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	optometrydd wrth iddi ddatblygu. (Rôl yr Optometrydd)	Cymru ddarparu eglurder ar gyfer byrddau iechyd ynglŷn ag yswiriant indemniad, trefniadau adnoddau a chyllid, hyfforddiant/cymwy sterau a mecanweithiau cyfathrebu.		Lywodraeth Cymru			
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
15	Mae angen gwneud defnydd ychwanegol o optometryddion er mwyn cynyddu	Dylai byrddau iechyd ystyried y defnydd ychwanegol o optometryddion er mwyn cynyddu capasiti a lleihau'r baich ar ofal eilaidd.	<ul style="list-style-type: none">• LIC i ddarparu canllawiau fel yr uchod• Mae trefniadau ar waith i ryddhau cleifion detholedig â glawcoma posibl a gorbwysedd ocwlar• Mae trefniadau ar waith i ryddhau	Yn aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru		Cyfarfod nesaf yr ECCG Mai 17	Arweinwyr Clinigol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	capasiti (enghraifft Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a lleihau'r baich ar ofal eilaidd. (Y Defnydd o Optometryddion)	Bydd angen i fyrddau iechyd sicrhau bod materion yn cael eu hegluro ynglŷn ag yswiriant indemniad, trefniadau adnoddau a chyllid, hyfforddiant a chyfathrebu ar gyfer optometryddion.	cleifion risg isel ar ôl llawdriniaeth cataract arferol i gael ymweliad dilynol ag Optometrydd yn y gymuned <ul style="list-style-type: none">Gwaith ar wella trefniadau rhyddhau cleifion ag AMD nad ydynt yn derbyn triniaeth ar y pryd yn parhau i fod ar waith				
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
16	Cleifion yn methu â chael eu hatgyfeirio bob tro am eu hasesiad golwg gwan gan staff	Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau eu bod yn atgoffa staff o bwysigrwydd atgyfeirio'r holl gleifion cymwys i	<ul style="list-style-type: none">Mae Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid yn darparu gwybodaeth i BOB claf bron â bod o ran y Gwasanaeth Golwg Gwan. Caiff llawer o'r rhain eu cyfeirio at y gwasanaeth a bydd manylion cyswllt ymarferydd Golwg Gwan lleol y claf yn	Gorffennaf 17		Cyfarfod nesaf yr ECCG Mai 17	Rheolwyr Gwasanaethau a Rheolwyr Gwasanaethau'r



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	gofal eilaidd. (Y Defnydd o optometryddio n)	optometrydd achrededig ar gyfer asesiad golwg gwan.	<p>cael eu darparu. Mewn rhai achosion, bydd y gweithgareddau 'cyfeirio' hyn yn cael eu hehangu a bydd y Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid yn gwneud atgyfeiriad uniongyrchol i Wasanaeth Golwg Gwan Cymru</p> <ul style="list-style-type: none">• Dylai'r arweinwyr clinigol sicrhau bod yr holl staff clinigol yn ymwybodol o wasanaeth Cymhorthion Golwg Gwan Llywodraeth Cymru a bod cleifion priodol yn cael eu trosglwyddo i hwn yn uniongyrchol neu drwy Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid• Trafodwyd y mater hwn yn ECCG BIPABM. ECCG i ofyn i'r Rheolwr Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid ysgrifennu llythyr ffurfiol i glinigwyr yn eu hatgoffa o bresenoldeb Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid a'r amrywiaeth o ddyletswyddau a gwasanaethau a ddarperir				Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid, RNIB
--	---	---	---	--	--	--	--



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
17	Problemau ynglŷn â chydberthnasau gwael rhwng staff gofal sylfaenol a staff gofal eilaidd yn cael effaith ar y cynnydd ar gyfer datblygiadau gwasanaeth. (Y Berthynas rhwng Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd)	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod y staff perthnasol yn ymgysylltu â'r Grŵp Gofal Llygaid lleol. Rhaid i'r grŵp gwrdd yn rheolaidd a chael ei gadeirio gan aelod o'r tîm gweithredol. Un amcan allweddol yw gwella'r gydberthynas weithio rhwng staff gofal sylfaenol a staff gofal eilaidd, er mwyn meithrin mentrau gweithio ar y cyd.	<ul style="list-style-type: none">• Caiff ECCG ABM ei gadeirio gan aelod o'r tîm gweithredol. Y Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd (DOTH)• Estynnir gwahoddiad i bob rhanddeiliad perthnasol ac, yn gyffredinol, daw cynrychiolwyr o bob maes allweddol o ofal iechyd llygaid i'r cyfarfodydd• Mae ABM wedi penodi swyddog cymorth cynllun gofal Llygaid i ddarparu cymorth gweinyddol a phrosiect i'r ECCG, ac i ddarparu cyswllt rhwng ECCG, is-grwpiau strategol, grŵp prosiect gofal a gynlluniwyd y Bwrdd Iechyd a WOPCB Llywodraeth Cymru• Mae cyfres o is-grwpiau yn caniatáu i gysylltiadau agosach ddatblygu â'r rhanddeiliaid perthnasol ar gyfer llwybrau penodol, gan ymrwymo	Tachwed d 17		Cyfarfod nesaf yr ECCG Mai 17	Cadeirydd ECCG



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
			<p>cynrychiolwyr Gofal Sylfaenol fwyfwy, gan gynnwys tîm rheoli Gofal Sylfaenol a'r Cynghorydd Optometreg a benodwyd yn ddiweddar</p> <ul style="list-style-type: none">Mae'r rheolaeth gofal sylfaenol wedi'i hailstrwythuro yn ddiweddar i ganolbwyntio ar arweiniad Optometreg a'i gryfhau				
18	Nid oedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gynghorydd optometrig yn y swydd ar adeg ein hadolygiad. (Y Berthynas rhwng Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd)	Mae'n rhaid i BIP Betsi Cadwaladr sicrhau bod cynghorydd optometreg parhaol yn cael ei recriwtio	<ul style="list-style-type: none">Dechreuodd y Cynghorydd Optometreg a benodwyd gan BIPABM ar ei swydd ym mis Chwefror 2017Aeth y Cynghorydd Optometreg i'r cyfarfod Clwstwr am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2017	Cwblhawyd			



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
19	Codwyd pryderon ynghylch defnyddio gwahanol feini prawf gan wahanol feddygon ymgynghorol. O ganlyniad, golyga hyn bod rhai cleifion yn cael ymweliadau dilynol diangen neu'n cael eu	Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod gan eu gwasanaeth AMD bolisi sy'n nodi'r meini prawf ar gyfer rhyddhau cleifion AMD 'gwlyb', yn unol â Chanllawiau'r Coleg Brenhinol. Y nod yw sicrhau nad yw cleifion yn aros yn y gwasanaeth yn hwy nag sydd ei angen. Gwneud y defnydd gorau o'r	<ul style="list-style-type: none">Mae'r arweinydd clinigol a'r timau amlddisgyblaethol wedi cwrdd ac adolygu'r canllawiau cyfredol o ran polisi rhyddhau gweithredol i gleifion sy'n annhebygol o gael budd o fwy o chwistrelliadau mewnwydrog. Cytunwyd ar feini prawf sy'n mapio i ganllawiau NICE a fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol. Mae'r archwiliad arfaethedig yn barhaus a bydd yn cael ei adrodd yn flynyddol	Cwblhawyd			Arweinydd clinigol AMD, ac arweinydd clinigol pob llwybr clinigol arall



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

	trin heb lawer o obaith o fudd. (Rhyddhau Cleifion - Meini Prawf)	capasiti ar gyfer cleifion sydd fwyaf tebygol o fod ar eu hennill. Gallai cydymffurfiaeth â'r polisi ffurfio rhan o'r archwiliad gwasanaeth blynyddol.					
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
20	Systemau TG annigonol i gasglu data defnyddiol. Ychydig iawn o ymwybyddiaeth o ddata capasiti a galw. (Systemau Rheoli Gwybodaeth - Cynllunio)	Mae'n rhaid gwneud gwelliannau i systemau rheoli gwybodaeth o fewn byrddau iechyd er mwyn galluogi i ddata (perfformio) capasiti a galw gael ei gasglu'n gywir. Bydd hyn yn caniatáu gwaith mwy gwybodus i	<ul style="list-style-type: none">Mae adran Wybodeg BIPABM yn darparu gofynion data bob yn ail fis bellach i reolwyr y Gyfarwyddiaeth eu cyflwyno i Fyrddau Gofal a Gynlluniwyd Cenedlaethol.	Cwblhawyd		Cyfarfod nesaf ECCG Mai 17	Is-grŵp TG BIPABM



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

		gael ei wneud ar gynllunio gweithlu ac yn sicrhau bod darpariaethau adnoddau yn seiliedig ar anghenion y claf.					
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
21	Problemau o ran rhannu gwybodaeth (Systemau Rheoli Gwybodaeth - Rhannu Gwybodaeth)	Mae'n rhaid gwneud gwelliannau ar wella'r mynediad at wybodaeth am gleifion a'i rhannu o fewn ardaloedd y bwrdd iechyd er mwyn gwella effeithlonrwydd gwasanaethau.	<ul style="list-style-type: none">Rhagwelwn y dylai hyn wella gyda system atgyfeirio 2 ffordd a Chofnod Cleifion ElectronigMae gwaith ar droed i ddarparu mynediad i Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid Singleton at Myrddin er mwyn gwella'r wybodaeth a rennir rhwng y clinigau a gwasanaeth y Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid. Mae hyn eisoes ar waith ar gyfer y Swyddog	Yn dibynnu ar y Cofnod Cleifion Electronig		Cyfarfod nesaf ECCG Mai 17	Is-grŵp TG BIPABM



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

			Cyswllt Gofal Llygaid sy'n gweithio ledled Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr				
	Canfyddiadau'r Adolygiad	Argymhellion	Cam Gweithredu / Cynnydd	Dyddiad Targed	Statws	Dyddiad Adolygu'r Cynnydd	Arweinydd
22	Diffyg ymwybyddiaeth gyhoeddus o ran gofal llygaid cyffredinol. (Ymwybyddiaeth Gyhoeddus)	Mae angen i Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd ystyried sut y gellir codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o bwysigrwydd cael profion llygaid rheolaidd, problemau gofal llygaid cyffredinol, yn ogystal â'r symptomau i fod yn ymwybodol ohonynt	<ul style="list-style-type: none">Mae'r gwaith ar droed, yn enwedig ers lansio peilot 111 PABM ym mis Hydref, i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyflyrau gofal llygaid a'r ffynhonnell o gymorth fwyaf priodol, sef ECEW ac LVS. Yn dilyn cwblhau aelodaeth tîm arwain clinigol y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn ddiweddar a phenodiad Cynghorydd Optometreg (Chwefror), bydd cynllun gweithredu yn cael ei weithredu gydag aelodau allweddol eraill i'r Grŵp Cydweithredol Gofal Llygaid, y tîm cyfathrebu a rhanddeiliaid eraill fynd i'r afael â'r broblem honMae Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid yn	Tachwed d 17		Cyfarfod nesaf ECCG Mai 17	Rheolwr Gofal Sylfaenol a'r Cynghorydd Optometreg



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

		<p>sy'n gysylltiedig â'r cyflyrau llygaid mwy difrifol a phwysigrwydd cael cyngor gofal iechyd buan.</p> <p>Mae angen darparu mwy o wybodaeth am y gwahanol wasanaethau/gweithwyr proffesiynol sydd ar gael i weld/trin cleifion mewn cyswllt â'u cyflyrau gofal llygaid.</p>	<p>darparu negeseuon hyrwyddo iechyd rheolaidd i gleifion Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid. Maen nhw hefyd yn trefnu grwpiau cymorth a seminarau i gleifion, sy'n cael eu mynychu gan lawer ac sy'n cynnig cyngor gofal iechyd i gleifion, gan gynnwys cydymffurfio â thriniaeth. Yn ystod y seminar ddiwethaf i gleifion yn Abertawe, lle'r oedd tua 130 o gleifion yn bresennol, roedd y negeseuon gofal llygaid yn cynnwys bwyta'n iach.</p>			
--	--	---	---	--	--	--